OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 993 (Cy.146)

CREDYDAU TRETH, CYMRU

Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*28 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*30 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol o dan adran 12(6) o Ddeddf Credydau Treth 2002(**1**), yn gwneud y diwygiadau a ganlyn i'r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007(**2**) drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 12(5), (7) ac (8) a 65(3) a (9) o'r Ddeddf honno.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2011 a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cynllun hwn ystyr "y prif Gynllun" ("*the principal Scheme*") yw Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007.

Diwygio erthygl 2 o'r prif Gynllun

2. Yn erthygl 2 o'r prif Gynllun (diffiniadau), yn y diffiniad o "corff cymeradwyo" ("*approval body*"), yn lle "yw'r corff y cyfeirir ato yn erthygl 3" rhodder "yw Gweinidogion Cymru".

Dirymu erthygl 3 o'r prif Gynllun

3. Mae erthygl 3 o'r prif Gynllun (corff penodedig) wedi ei dirymu.

(**1**) 2002 p.21. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 12(5), (7) ac (8) a 65(3) a (9) o Ddeddf Credydau Treth 2002 ("y Ddeddf") i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). *Gweler* adran 67 o'r Ddeddf am y diffiniad o "prescribed" ac adran 65(3) am y diffiniad o "schemes".

(**2**) O.S. 2007/226 (Cy.20), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/2687 (Cy. 237).

Diwygio erthygl 6 o'r prif Gynllun

4. Yn lle paragraff (1) o erthygl 6 o'r prif Gynllun (person a gymeradwywyd) rhodder y canlynol —

"(1) Rhoddir cymeradwyaeth i berson fel darparydd gofal plant o dan y Cynllun hwn os yw'r corff cymeradwyo wedi'i fodloni bod y meini prawf cymeradwyo wedi'u bodloni mewn perthynas â'r person hwnnw.".

Diwygio erthygl 7 o'r prif Gynllun

5. Ym mharagraff (b) o erthygl 7 o'r prif Gynllun (meini prawf cymeradwyo) yn lle "Gynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Weinidogion Cymru".

Diwygio erthyglau 8, 9 a 10 o'r prif Gynllun

6. Yn erthyglau 8 (system gymeradwyo), 9 (yr wybodaeth sydd i'w darparu gan y corff cymeradwyo) a 10 (y cyfnod cymeradwyo) o'r prif Gynllun, yn lle "rhaid i" rhodder "bydd" ym mhob man lle y mae'n ymddangos.

Diwygio erthygl 12 o'r prif Gynllun

7. Yn erthygl 12 o'r prif Gynllun (ffioedd) hepgorer ", a hynny'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru,".

Dirymu erthygl 13 o'r prif Gynllun

8. Mae erthygl 13 o'r prif Gynllun (darpariaethau trosiannol) wedi ei dirymu.

Mewnosod erthyglau yn y prif Gynllun

9. Mae'r erthyglau a ganlyn wedi eu mewnosod yn y prif Gynllun—

"**Arbed**

14.—(1) Er gwaethaf dwyn y Cynllun hwn i rym, mae unrhyw gymeradwyaeth a roddir i ddarparydd gofal plant gan y cyn gorff cymeradwyo yn ddilys yn union cyn 1 Ebrill 2011 yn parhau i fod yn effeithiol mewn perthynas â'r darparydd hwnnw hyd nes y cynharaf o'r tri dyddiad isod, sef —

(a) y dyddiad pryd y tynnir y gymeradwyaeth honno yn ôl yn unol ag erthygl 6;

(b) y dyddiad pryd y daw'r gymeradwyaeth i ben am fod amser wedi mynd heibio; neu

(c) y dyddiad pryd y rhoddir cymeradwyaeth i'r darparydd gofal plant dan sylw gan y corff cymeradwyo yn unol ag erthygl 6.

(2) Yn yr erthygl hon ac yn erthygl 15, ystyr "cyn gorff cymeradwyo" ("*former approval body*") yw Nestor Primecare Services Limited, sy'n masnachu fel Nestor Criminal Records Agency(**3**).

Darpariaeth drosiannol

15. Pan fo cais am gymeradwyaeth fel darparydd gofal plant wedi cael ei gyflwyno i'r cyn gorff cymeradwyo ond nid yw wedi ei roi na'i wrthod eto gan y cyn gorff cymeradwyo

(**3**) A gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru Rhif 1963820.